

Bwrdd Cyngori Cenedlaethol cofnodion cyfarfod - 10 Mehefin 2026

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol 10 Mehefin 2026.

Cyhoeddwyd: 6 Hydref 2026 Diweddarwyd ddiwethaf: 6 Hydref 2026

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o [arolygiaethgofal.cymru](https://www.arolygiaethgofal.cymru)
Ewch i <https://www.arolygiaethgofal.cymru/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-agc-cofnodion-cyfarfod-dydd-mercher-10-mehefin-2026-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein [datganiad hygrychedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.
Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn [English](#).

Cynnwys

└ **Presenoldeb**

└ **Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau**

└ **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

└ **Camau Gweithredu sy'n Weddill**

└ **Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Arolygydd**

└ **Beth sy'n digwydd ym myd ein hawdurdodau lleol**

└ **Lleisiau'r aelodau**

└ **Trafodaeth ar berfformiad AGC, 2025-2026**

└ **Cynllun Strategol – cyflawniadau a'r hyn sydd wedi newid**

└ **Strategaeth ddigidol ar gyfer AGC – blaenoriaeth**

└ **Unrhyw fater arall**

└ **Cofnod Camau Gweithredu y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol – 10 Mehefin 2026**

Presenoldeb

Yn bresennol:

- Ruth Hussey (Cadeirydd)
- Valerie Billingham (Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn)
- Kate Cubbage (Ymddiriedolaeth Gofalwyr)
- Stuart Davies (Darparwr Gwasanaeth Cymorth Cartref)
- Tomos Davies (Swyddfa'r Comisiynydd Plant)
- Peter Max (Darparwr Gofal Preswyl)
- Melanie Minty (Fforwm Gofal Cymru)
- Claire Protheroe (CWLWM)
- Jenny Williams (ADSS Cymru)
- Gillian Baranski (Prif Arolygydd)
- Kevin Barker (AGC)
- Lou Bushell-Bauers (AGC)
- Neil Fewtrell (AGC)
- Sarita Marshall (AGC)
- Margaret Rooney (AGC)
- Elizabeth Wallwork (AGC)

Ymddiheuriadau:

- Natalie Fletcher (Darparwr)
- Alyson Thomas (Llais)
- Bethan Louise Kay (Swyddog blynyddoedd cynnar yr Awdurdod Lleol)
- Carol Bishop Jones (Gofalwr a defnyddiwr gwasanaeth, gwasanaethau oedolion)
- Rachel Overton (Darparwr, gofal dydd llawn)

1. Croeso, ymddiheuriadau a chyflwyniadau

- Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau.
- Cyflwynodd yr aelodau a oedd yn bresennol eu hunain. Croesawyd aelodau newydd a'r unigolion a oedd yn bresennol am y tro cyntaf.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

- Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod cywir.

3. Camau Gweithredu sy'n Weddill

- Trafodwyd a nodwyd y camau gweithredu.

4. Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Prif Arolygydd

Mae'r datblygiadau allweddol ers y cyfarfod diwethaf yn cynnwys:

- **Y wybodaeth ddiweddaraf am yr etholiad:** Mae gweinyddiaeth newydd a gaiff ei harwain gan Blaid Cymru bellach ar waith yn Llywodraeth Cymru, gyda ffocws cynnar ar ofal plant a chwarae, gofal cymdeithasol, a'r gwaith o ddileu elw o wasanaethau plant.
- **Adroddiadau diweddar:** Mae adroddiadau'n dangos ymgysylltiad cryf ym mhob rhan o'r sector, gan gynnwys yr adroddiad ar *Ofal Plant a Chwarae: Ymarfer Gwerth ei Rannu*, a gafodd adborth cadarnhaol gan ddarparwyr.
- **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid:** Nododd adroddiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru y galw mewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd, yr heriau recriwtio ac arferion anghyson. Bydd penderfyniad diweddar y Goruchaf Lys yn effeithio ar drothwyon.
- **Cyfradd ymateb y Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth:** Daeth y cyfnod cyflwyno Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth i ben ar 27 Mawrth gyda chyfradd gwblhau o 96%. Yn 2025, cyflwynodd 97% o ddarparwyr eu datganiadau.
- **Datganiadau Blynyddol / casglu data ar y cyd â Gofal Cymdeithasol Cymru:** Tua 95% yw'r gyfradd ymateb hyd yma.
- **Strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu:** Mae strategaeth newydd wedi cael ei datblygu a chaiff ei chyhoeddi'n fuan.
- **Diogelu:** Mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo, gan gynnwys cydadolygiad thematig mawr o'r broses o roi adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru ar waith – sy'n ymwneud â honiadau yn erbyn y rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth.
- **Cynadleddau ansawdd ac ymgysylltu:** Mae AGC wedi cynnal cynadleddau ansawdd â ddarparwyr o wasanaethau gofal plant a chwarae a gwasanaethau oedolion a phlant. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu i rannu arferion da ar draws gwasanaethau.
- **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025:** Mae'r broses o'i rhoi ar waith yn dynodi newid hirdymor sylweddol i wasanaethau plant. Mae AGC ar y trywydd iawn i gyflawni'r hyn sydd ei angen i gefnogi hyn.

5. Beth sy'n digwydd ym myd ein hawdurdodau lleol

Rhoddodd Lou Bushell-Bauers drosolwg cenedlaethol o Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gan dynnu sylw at dystiolaeth arolygu, gweithgarwch goruchwyllo ac adolygiadau thematig. Mae'r sefyllfa gyffredinol yn sefydlog ar y cyfan, gyda'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cael eu barnu'n 'dda' ac yn cael eu cefnogi gan brosesau arwain cryf a thimau ymrwymedig.

Cryfderau allweddol a nodwyd:

- Mae ymarfer seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ymgorffori'n fwy cadarn
- Mae systemau diogelu a threfniadau gwaith amlddisgyblaethol yn gryf ar y cyfan
- Cynnydd yn y defnydd o ddulliau myfyriol sy'n seiliedig ar gydberthnasau, yn enwedig mewn gwasanaethau plant

Pwysau allweddol ar y system:

- Oedi o ran amseroldeb (asesiadau, cynllunio ac adolygiadau)
- Prinder staff a heriau o ran cadw staff
- Materion o ran lleoliadau a digonolrwydd y farchnad, yn arbennig ar gyfer anghenion cymhleth

Pwysleisiodd Lou fod y pwysau hyn yn gydgysylltiedig ac yn effeithio ar y system gyfan, gan effeithio ar gysondeb a chalyniadau i bobl.

Er bod gwasanaethau'n perfformio'n gymharol dda, y neges allweddol yw y bydd gwelliant cynaliadwy yn dibynnu ar fynd i'r afael â phwysau ar y system ehangach, ac nid ar berfformiad gwasanaethau unigol yn unig.

Amlinellodd AGC ei rhaglen wella ei hun hefyd, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- Camau dilynol ac atebolrwydd cryfach ar ôl arolygiadau
- Defnydd gwell o ddata a gwybodaeth
- Mwy o gydweithio â phartneriaid
- Ehangu'r cyfleoedd i ddysgu a rhannu arferion da ledled Cymru

Cyfraniadau aelodau:

- Roedd llawer yn cytuno bod trosolwg Lou yn adlewyrchu'r realiti presennol.

Her adeiladol mewn perthynas â'r canlynol:

- Effaith newidiadau i bolisiau (e.e. model nid-er-elw)
- Cysondeb o ran data, adrodd a llais y defnyddiwr gwasanaethau

Atgyfnerthu materion allweddol:

- Pwysau ar y system
- Baich ar ofalwyr
- Sicrhau gwell cysondeb mewn perthynas â systemau a'r broses adrodd

Dywedodd Valerie Billingham fod y Comisiynydd Pobl Hŷn wedi cynnal arolwg o brofiadau pobl hŷn o ofal cymdeithasol rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Ionawr 2026. Caiff briff ei gyhoeddi cyn y toriad.

Camau gweithredu

- Kevin Barker a Lou Bushell-Bauers i fynd ar drywydd anghysondebau mewn perthynas â gofalwyr di-dâl.
- Bydd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael ei rannu pan fydd ar gael.

6. Lleisiau'r aelodau

- Mynegodd Peter Max bryder y gallai'r prosesau cofrestru presennol fod yn arafu'r gwaith o ddatblygu lleoliadau gofal newydd, ac y dylid eu hailystyried. Dywedodd Margaret Rooney fod ein data yn dangos bod ein dull newydd wedi arwain at brosesu ceisiadau'n gynt.
- Mynegodd Melanie Minty bryderon ynghylch ansefydlogrwydd cynyddol yn y sector cartrefi gofal, gan nodi pwysau o ran ffioedd a newid mewn rhai awdurdodau lleol tuag at ddarparu gwasanaethau'n fewnol a allai arwain at gau mwy o wasanaethau a throsglwyddo preswylwyr. Mae angen rhoi cymorth cyfannol gwell i breswylwyr a theuluoedd, yn enwedig y rhai ag anghenion cymhleth, a all fod fwyaf agored i niwed yn ystod cyfnodau o'r fath.

Bydd AGC yn monitro'r gwasanaethau sy'n cau yn ofalus iawn gan roi adborth yn ôl yr angen.

7. Trafodaeth ar berfformiad AGC, 2025-2026

Rhoddodd Margaret Rooney ddiweddariad ar berfformiad AGC, gan gwmpasu gweithgarwch arolygu, staffio a gwaith rheoleiddio.

Ar y cyfan, mae AGC yn cyrraedd y rhan fwyaf o'r targedau perfformiad, yn enwedig y targedau canlynol:

- Adroddiadau arolygu'n cael eu cyflwyno a'u cyhoeddi mewn modd amserol
- Perfformiad cryf o ran amseroedd penderfyniadau ynghylch cofrestru

Bu gostyngiad bach yn nifer yr arolygiadau, yn bennaf oherwydd:

- Swyddi gwag blaenorol a saib mewn recriwtio
- Y cyfnod sefydlu chwe mis ar gyfer arolygwyr newydd yn arwain at oedi wrth sicrhau'r capasiti llawn i arolygu

Nodwyd bod arolygiadau rheolaidd hwyr yn fater allweddol:

- Yn sgil blaenoriaethu arolygiadau risg uwch ac ymateb i bryderon

Disgwylir i'r sefyllfa wella wrth i arolygwyr newydd ddod yn gwbl weithredol

Nodwyd cynnydd mewn pryderon a hysbysiadau:

- Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar weithgarwch arolygu
- Gall arwain at arolygiadau ychwanegol

Mae'r perfformiad cofrestru wedi gwella'n sylweddol, yn rhannol oherwydd y canlynol:

- Newidiadau i'r broses (yr angen i ddarparu dogfennaeth lawn ymlaen llaw)
- Lefelau staffio uwch
- Gostyngiad yn nifer y ceisiadau a ddaeth i law

Cyflawnodd rhaglen arolygu'r awdurdodau lleol y canlynol:

- Arolygiadau, archwiliadau gwelliant a gwaith ar y cyd â phartneriaid (e.e. AGIC)
- Ymgysylltiad cryf â phobl, staff a rhanddeiliaid

Cyflwynodd Margaret bwynt trafod allweddol ynghylch symud tuag at fodel arolygu sy'n canolbwyntio'n fwy ar risg, gan ystyried y canlynol:

- Arolygu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda yn llai aml
- Sicrhau y gellir canolbwyntio'n well ar wasanaethau risg uwch

Cyfraniadau aelodau:

Defnyddio cyfarfodydd ansawdd fel ffordd o wneud y canlynol:

- Cynnal goruchwyliaeth rhwng arolygiadau
- Annog gwelliant parhaus heb bwysau arolygiad ffurfiol

Ystyried sut i wneud y canlynol:

- Nodi arwyddion rhybudd cynnar (e.e. newidiadau mewn arweinyddiaeth)
- Darparu gwybodaeth fwy dynamig, amser real i'r cyhoedd
- Myfyrio ar oblygiadau unrhyw fodel newydd ar adnoddau
- Cynnal cymhellion ar gyfer gwella

8. Cynllun Strategol – cyflawniadau a'r hyn sydd wedi newid

Rhoddodd Gillian Baranski ddiweddariad ar ddarparu'r Cynllun Strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Ymhlith yr 11 o gamau a gynlluniwyd, cwblhawyd 7 ohonynt, a bu i 4 gael eu hoedi yn bennaf oherwydd y canlynol:

- Newidiadau i'r system (platfform rheoli achosion newydd)
- Pwysau ar adnoddau (swyddi gwag a gweithgarwch recriwtio uchel)
- Mae angen amser i ymgysylltu'n ehangach a chwblhau gwaith datblygu

Roedd y cyflawniadau allweddol yn cynnwys:

- Cynnydd ar ddatblygiadau digidol a gwelliannau wrth gofrestru
- Gwaith cydweithredol â Gofal Cymdeithasol Cymru a phartneriaid
- Ffocws parhaus ar rannu arferion da

Nododd Gillian fod digwyddiadau allanol wedi llywio blaenoriaethau'n sylweddol, gan gynnwys y canlynol:

- Gwaith diogelu yn dilyn troseddau Neil Foden
- Rhoi'r agenda nid-er-elw ar waith mewn gwasanaethau plant
- Newidiadau i bolisiâu a pharatoi ar gyfer ymchwiliad cyhoeddus COVID-19

Gan edrych tua'r dyfodol, mae'r blaenoriaethau'n cynnwys:

- Darparu swyddogaethau rheoleiddio craidd
- Rhoi'r cynllun cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar waith
- Gwella'r broses o ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Datblygu strategaeth ddigidol a data
- Defnyddio gwybodaeth a data yn well
- Adeiladu ar lwyddiant o ran graddau er mwyn ysgogi gwelliannau ym mhob rhan o'r sector

9. Strategaeth ddigidol ar gyfer AGC – blaenoriaeth

Cyflwynodd Neil Fewtrell ddrafft cynnar o strategaeth ddigidol AGC, gan ofyn am adborth gan yr aelodau.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â Safonau Gwasanaethau Digidol Cymru ac yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Anghenion defnyddwyr
- Hygyrchedd a chynhwysiant
- Gwelliant wedi'i ysgogi gan ddata

Y weledigaeth gyffredinol yw creu'r canlynol:

- Gwasanaethau digidol syml a chynhwysol i ddefnyddwyr
- Amgylchedd gwaith digidol mwy effeithlon i staff

Mae'r meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:

- Gwasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr (hygyrch, dwyieithog, cynhwysol)
- Gwella sut mae'r cyhoedd yn cael gwybodaeth er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus
- Symleiddio'r broses o ryngweithio â darparwyr er mwyn lleihau'r baich
- Gwella systemau mewnol a llifoedd gwaith i staff
- Datblygu sgiliau a diwylliant digidol yn AGC
- Sicrhau technoleg ddiogel a modern a threfniadau llywodraethu cryf

Mae'r strategaeth yn cydnabod y pedwar prif grŵp defnyddwyr:

- Darparwyr
- Y cyhoedd
- Staff AGC
- Rhanddeiliaid ehangach

Caiff llwyddiant ei fesur drwy'r canlynol:

- Rhyngweithio haws i ddarparwyr a'r cyhoedd
- Mwy o ddefnydd o wasanaethau digidol
- Llai o ymdrech ymarferol a chynhyrchiant a phrosesau gwneud penderfyniadau gwell

Gofynnodd Neil yn benodol i'r aelodau am y canlynol:

- Adborth ar y weledigaeth a'r blaenoriaethau
- Gwybodaeth am fylchau neu feysydd coll
- Cymorth i sefydlu grwpiau defnyddwyr, yn enwedig grwpiau sy'n cynnwys darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Adborth gan yr Aelodau

- Cafodd y strategaeth ddigidol ei chroesawu ac roedd cytundeb ei bod yn symud i'r cyfeiriad cywir ac yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion defnyddwyr a hygyrchedd.
- Nododd yr aelodau bod angen atgyfnerthu'r elfen data a dadansoddeg, gan gynnwys rhannu data yn well ac, integreiddio a defnyddio gwybodaeth i gefnogi gwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg
- Roedd cefnogaeth gref o blaid sefydlu grwpiau defnyddwyr, yn enwedig grwpiau sy'n cynnwys darparwyr, a nodwyd bwlch o ran ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd
- Pwysleisiwyd y dylai strategaeth ddigidol alluogi canlyniadau busnes, yn hytrach na gweithredu fel swyddogaeth unigol
- Nododd yr aelodau ddefnydd cynyddol o AI ac adnoddau digidol ym mhob rhan o'r sector, gan annog AGC i archwilio dulliau tebyg a dysgu gan eraill
- Gwnaed argymhellion i gysylltu â mentrau digidol presennol ar gyfer y sector cyfan ac ystyried y defnydd moesegol o dechnoleg
- Awgrymwyd hefyd y gallai AGC helpu i ddatblygu dull digidol ymhlith darparwyr sy'n llai medrus wrth ddefnyddio adnoddau digidol.

10. Unrhyw fater arall

- Cadarnhawyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Medi 2026.

Cofrestr gwrthdaro buddiannau

- Yn dilyn cais gan aelodau, mae AGC wedi ychwanegu pwynt at y Cylch Gorchwyl sy'n ymwneud â 'chynnal archwiliad gwrthdaro buddiannau blynyddol.'
- Mae AGC yn bwriadu cynnal archwiliad blynyddol o unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau a allai fod gan aelodau.
- Bydd yr archwiliad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2027.

Camau gweithredu:

- Pob aelod i gyflwyno datganiad o fuddiannau (erbyn diwedd mis Mehefin) i gefnogi proses gwrthdaro buddiannau newydd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol.
- Bydd ffurflen gwrthdaro buddiannau newydd yn cael ei hanfon gan AGC, a gofynnir i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau proffesiynol neu bersonol perthnasol.

Ar ôl derbyn y datganiadau, bydd AGC yn eu hadolygu ac yn cadarnhau a oes angen eu cofnodi'n ffurfiol

Micro-ofal


Gofynnodd Valerie Billingham am y gwasanaeth micro-ofal Cadarnhaodd Margaret fod opsiynau'n cael eu hystyried a bod camau pellach yn ddibynnol ar benderfyniad y Gweinidog.

Cofnod Camau Gweithredu y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol – 10 Mehefin 2026

Mae'n bosibl na fydd modd gweld rhywfaint o gynnwys y tabl isod yn y ddogfen hon. Ewch i <https://www.arolygiaethgofal.cymru/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-agc-cofnodion-cyfarfod-dydd-mercher-10-mehefin-2026-html> (<https://www.arolygiaethgofal.cymru/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-agc-cofnodion-cyfarfod-dydd-mercher-10-mehefin-2026-html>) i'w weld yn llawn.

Cyfeirnod	Cam gweithredu	Perchennog	Amserlen / Diweddariad Nesaf
A	Kevin Barker a Lou Bushell-Bauers i fynd ar drywydd anghysondebau mewn perthynas Æ gofalwyr di-dŶl.	Kevin/Lou	11 Medi
A	Pob aelod i gyflwyno datganiad o fuddiannau (erbyn diwedd mis Mehefin) i gefnogi proses gwrthdaro buddiannau newydd y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol.	Y Bwrdd Cyngori Cenedlaethol	30 Mehefin
A	Bydd adroddiad y Comisiynydd Pobl HŶn yn cael ei rannu pan fydd ar gael.	Comisiynydd Pobl HŶn	

Cyfeirnod	Cam gweithredu	Perchennog	Amserlen / Diweddariad Nesaf
A	Bydd ffurflen gwrthdaro buddiannau newydd yn cael ei hanfon gan AGC, a gofynnir i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau proffesiynol neu bersonol perthnasol.	Swyddfa'r Prif Arolygydd	



Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o [arolygiaethgofal.cymru](https://www.arolygiaethgofal.cymru)

Ewch i <https://www.arolygiaethgofal.cymru/bwrdd-cynghori-cenedlaethol-agc-cofnodion-cyfarfod-dydd-mercher-10-mehefin-2026-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch. Drllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth. Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn [English](#).